



Polisi (Adran Addysg Gwynedd)

Darparu ar gyfer gofalwyr ifanc

1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â phobl ifanc sy'n cymryd cyfrifoldeb am rywun sy'n sâl, yn anabl, yn dioddef o salwch meddwl neu sy'n cael ei effeithio gan gamddefnydd sylweddau, neu sydd â llawer o gyfrifoldeb am frawd neu chwaer neu aelod o'r teulu .

2. Cyd-destun

2.1 Amcangyfrifir bod dros 3000 o ofalwyr ifanc o oed ysgol yng Nghymru, ac mewn rhai achosion gallai eu cyfrifoldebau effeithio ar eu haddysg a'u bywyd cymdeithasol

2.2 Gallai gofalwyr ifanc weithredu fel cyfieithydd mewn teuluoedd lle nad yw'r Saesneg yn brif iaith neu lle mae gan berthynas nam ar y clyw neu ar y lleferydd. Gallai cyfrifoldebau gofalwr ifanc gynnwys iaith arwyddion a chyfieithu.

3. Datganiad o fwriad

Bydd Adran Addysg Gwynedd yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i annog a chefnogi disgyblion sy'n ofalwr ifanc.

4. Fframwaith Statudol

4.1 Deddf Addysg 1996

4.3 Deddf Plant 2004

5. Egwyddorion Sylfaenol

5.1 Mae gan pob disgybl yr hawl i gael mynediad i addysg cyn ysgol a holl wasanaethau addysg

5.2 Mae gan pob disgybl yr hawl i gyfleoedd cyfartal ar gyfer cyrraedd llwyddiannau addysgol

6. Amcanion Adran Addysg Gwynedd

6.1 Drwy waith Y Gwasanaeth Lles Addysg, ymdrin yn sensitif â sefyllfa gofalwyr ifanc.

6.2 Gweithio gyda'r ysgol ac asiantaethau gwirfoddol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr ifanc.

6.3 Cydweithio gydag ysgol, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau perthnasol i adnabod y gofalwyr ifanc.

7. Dyletswyddau Corff Llywodraethol Ysgol

7.1 Mae'n ddyletswydd ar lywodraethywr ysgolion i sicrhau mynediad i adnoddau a darpariaeth briodol i bob disgybl

7.2 Rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r deddfau perthnasol.

8. Arfer dda i Benaethiaid Ysgolion

8.1 Sicrhau bod athrawon yr ysgol yn sensitif i bryderon disgyblion y gellid cymryd y farn nad yw'r rhieni yn gallu ymdopi, a gallant gael eu "rhoi mewn gofal"

8.2 Sicrhau bod athrawon yn sensitif i bryderon disgyblion os datgelir manylion eu sefyllfa gartref

8.3 Sicrhau bod gan y disgybl gyswllt penodol ar y staff, gan mewn rhai achosion, y byddant eisiau rhannu eu hanawsterau

8.4 Sicrhau bod yr ysgol yn gweithio gyda'r awdurdod ac asiantaethau gwirfoddol er mwyn eu bod yn hollol ymwybodol o'r ystod o gymorth sydd ar gael i ofalwyr ifanc

8.5 Nodir isod rhai o effeithiau gofalu ar bobl ifanc. Dylai ysgol sicrhau bod athrawon yn ymwybodol ohonyntac yn ymateb yn sensitif:

- Problemau cwblhau gwaith cartref ac ennill cymwysterau
- Colli cyfleoedd addysgol tu allan i'r ysgol megis clybiau ac ymweliadau
- Colli ysgol oherwydd blinder, poeni neu fwlio
- Wedi'u hynysu oddi wrth blant eraill ac aelodau eraill o'r teulu
- Diffyg amser i chwarae ac ar gyfer gweithgareddau hamdden
- Iselder, pryder a diffyg hunan-parch, ac anawsterau ffurfio perthnasoedd

Dyddiad Mabwysiadu'r polisi yn wreiddiol:

Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr:

Pennaeth:

Dyddiad Adolygu'r Polisi: